
# Eich gwasanaeth Casgliadau Gwastraff ac Ailgylchu Masnachol newydd

## Canllawiau a gwybodaeth



Cyngor Bwrdeisdref Sirol
Blaenau Gwent
County Borough Council

**Blaenau Gwent yn ailgylchu**
**Blaenau Gwent recycles**

# Croeso i'ch gwasanaeth Casgliadau Gwastraff ac Ailgylchu Masnachol newydd

Yn unol â deddfwriaeth amgylcheddol Llywodraeth Cymru, rhaid i'r holl wastraff masnachol yng Nghymru gael ei wahanu gan fusnesau a'i gyflwyno i'w casglu mewn modd tebyg i gasgliadau ailgylchu domestig.

## Sut dylwn i gyflwyno fy ngwastraff ac ailgylchu?

Rhaid ichi sortio eich gwastraff ac ailgylchu i bum cynhwysydd ar wahân, un ar gyfer bob un o'r 'ffrydiau gwastraff ac ailgylchu' canlynol:

- Papur a Chardfwrdd
- Plastig a Metel
- Gwydr
- Gwastraff Bwyd
- Gwastraff na ellir ei ailgylchu

Ar sail faint o wastraff ac ailgylchu rydych chi'n ei greu, byddwn yn darparu'r canlynol ichi:

### Papur a Chardfwrdd Cymysg




Bin olwynion plastig du neu fetel lliw arian, crât du neu sach ailddefnyddiadwy wen ar gyfer eich **ailgylchu Papur a Chardfwrdd Cymysg.**

### Cynhwysyddion Plastig a Chaniau Metel Cymysg




Bin olwynion plastig du, crât du neu sach ailddefnyddiadwy las ar gyfer eich **ailgylchu Cynwysyddion Plastig a Chaniau Metel Cymysg.**

## Gwydr Cymysg



Bin olwynion plastig du ar gyfer eich **ailgylchu Gwydr Cymysg.**

## Gwastraff Bwyd



Bin olwynion plastig brown neu gadi gwyrdd ar gyfer eich **ailgylchu Gwastraff Bwyd.**

## Gwastraff na ellir ei ailgylchu



Bin olwynion plastig di neu fetel lliw arian ar gyfer gweddill eich **gwastraff na ellir ei ailgylchu**, a elwir hefyd yn **"sbwriel"** neu **wastraff "gweddilliol".**

Bydd sticeri ar yr holl finiau, cadis, cratiau a sachau fel ei bod yn glir ar gyfer pa 'ffrwd wastraff neu ailgylchu' y mae pob un.

Dim ond gwastraff ac ailgylchu a roddir allan yn y cynwysyddion a restrir yma y gwnawn ei gasglu.

Os hoffech fwy, neu lai, o gynwysyddion, neu os bydd arnoch angen casgliad ychwanegol unigol, cysylltwch â ni, os gwelwch yn dda.

# Cael eich gwastraff a'ch ailgylchu yn iawn

**Os gwelwch yn dda, peidiwch â:**

- ✗ defnyddio unrhyw gynwysyddion na ddarparwyd gan y Cyngor
- ✗ defnyddio unrhyw sachau plastig untro glas neu wyn a allai fod gennych dros ben o wasanaeth casgliadau gwastraff ac ailgylchu blaenorol a reolwyd gan y Cyngor
- ✗ rhoi eitemau ar ben, neu wrth ymyl, eich cynwysyddion, oni bai ein bod wedi cytuno hynny gyda chi
- ✗ rhoi eitemau mewn bagiau plastig cyn eu rhoi yn eich cynwysyddion ailgylchu. Rhowch eitemau i mewn yn rhydd, heblaw am:
  - pan fyddwch yn rhoi papur sydd wedi bod drwy beiriant rhwygo i mewn, mae angen ei roi mewn bag plastig clir cyn ei roi yn eich cynhwysydd ar gyfer ailgylchu Papur a Chardfwrdd Cymysg, neu
  - pan fyddwch yn rhoi gwastraff bwyd allan; cewch ei roi mewn unrhyw fath o fag plastig
- ✗ cymysgu eich gwastraff ac ailgylchu mewn unrhyw ffordd heblaw'r pump 'ffrwd gwastraff ac ailgylchu' a restrir uchod. Mae gan ein cerbydau casglu bump 'pod casglu' cyfatebol ac ni fyddwn yn casglu eich gwastraff ac ailgylchu os byddwch wedi'i halogi drwy gymysgu'n anghywir.

**Cofiwch, os gwelwch yn dda, bod angen:**

- ✓ cau'r caeadau ar eich holl gynwysyddion
- ✓ roi eich cynwysyddion allan i'w casglu cyn 8yb ar eich diwrnod casglu
- ✓ casglu eich cynwysyddion o'r man casglu gwastraff ac ailgylchu unwaith y maent wedi cael eu gwagio

Efallai y byddwn yn casglu eich gwastraff ac ailgylchu ar wahanol ddiwrnodau drwy'r wythnos. I gael gwybod eich dyddiadau casglu ar gyfer pob ffrwd gwastraff ac ailgylchu, cysylltwch â ni.

# Beth sy'n mynd i ble?

## Papur a Chardfwrdd Cymysg




Fflatiwch focsys cardfwrdd

**Ie, os gwelwch yn dda**

- ✓ Papur (papur glân yn unig, wedi'i argraffu arno neu heb ei argraffu arno)
- ✓ Papur wedi'i rwygo'n fân, fel derbynebau a biliau (rhowch y papur mân mewn bag plastig clir cyn ei roi yn y cynhwysydd hwn)
- ✓ Llyfrau clawr meddal
- ✓ Papurau newydd
- ✓ Cylchgronau
- ✓ Catalogau
- ✓ Amlenni (gyda ffenestri neu heb)
- ✓ Deunydd pacio o gardfwrdd
- ✓ Cartonau wyau

**Na, dim diolch**

- ✗ Papur neu gardfwrdd wedi'i halogi â bwyd, olew, saim neu baent
- ✗ Llyfrau ffôn
- ✗ Llyfrau clawr caled
- ✗ Papur wal
- ✗ Papur lapio anrhegion
- ✗ Hancesi papur, papur cegin a thyweli papur
- ✗ Cardiau crafu
- ✗ Cartonau cardfwrdd gyda chwyr arnynt, y math a ddefnyddir ar gyfer sudd ffrwythau, llaeth a chawl, fel Tetra Pak

# Cynwysyddion Plastig a Chaniau Metel Cymysg




| | | | |
|---|---|---|---|
| Rhowch blastig du neu frown yn eich cynhwysydd ar gyfer gwastraff na ellir ei ailgylchu | Gwagiwch, rinsiwch, a gwasgwch eitemau plastig a chaniau yn ddiogel | Erosolau gwag yn unig | Ffoil glân yn unig |

## Ie, os gwelwch yn dda

- ✓ Poteli plastig sy'n dal nwyddau glanhau, fel poteli cannydd a chwistrellau
- ✓ Poteli diodydd plastig, fel poteli llaeth, diodydd ysgafn a dŵr
- ✓ Cynwysyddion bwydydd wedi'u gwneud o blastig, fel tybiau menyn/marjarîn, potiau iogwrt, tybiau ffrwythau a chynwysyddion teisennau
- ✓ Tuniau bwydydd a chaniau diodydd (alwminiwm a dur ill dau)
- ✓ Erosolau gwag (ac eithrio'r rhai a ddefnyddir i ddal paent neu gemegau niweidiol)
- ✓ Ffoil glân a chartonau ffoil
- ✓ Cartonau cardfwrdd gyda chwyr arnynt, y math a ddefnyddir ar gyfer sudd ffrwythau, llaeth a chawl, fel Tetra Pak

## Na, dim diolch

- ✗ Eitemau o blastig du neu frown
- ✗ Bagiau plastig, fel bagiau siopa, bagiau bara a bagiau bwydydd o'r rhewgell
- ✗ Deunyddiau pacio plastig aml-becyn, fel y rhai sy'n dal creision a diodydd ysgafn
- ✗ Haenen blastig, fel haenen lynu, haenau oddi ar dybiau bwydydd, a deunydd lapio palet
- ✗ Pecynnau bisgedi, pecynnau losin, a bagiau neu becynnau siocled
- ✗ Pecynnau creision
- ✗ Ffoil gyda phapur ar ei gefn
- ✗ Pecynnau plastig meddal a ddefnyddir ar gyfer bwydydd babanod, sudd ffrwythau a reis microdon
- ✗ Bagiau parseli wedi'u gwneud o blastig
- ✗ Swigod lapio
- ✗ Polystyren
- ✗ Plastigion caled, fel hongwyr dillad a photiau planhigion
- ✗ Erosolau neu duniau a ddefnyddir ar gyfer dal paent neu nwyddau niweidiol
- ✗ Tuniau neu danwyr nwy

# Gwydr Cymysg




Tynnwch unrhyw gaeadau plastig neu fetel, a'u rhoi gyda'ch Cynwysyddion Plastig a Chaniau Metel Cymysg

Gwagiwch a rinsiwch eitemau gwydr

**Ie, os gwelwch yn dda**

- ✓ Poteli gwydr (o bob lliw)
- ✓ Jariau gwydr (o bob lliw)

**Na, dim diolch**

- ✗ Paenau gwydr, fel gwydr ffenestri
- ✗ Drychau
- ✗ Bylbiau golau
- ✗ Nwyddau ceramig neu tsieina, fel llestri
- ✗ Pyrex

# Gwastraff Bwyd




**Ie, os gwelwch yn dda**

- ✓ Ffrwythau a llysiau, yn cynnwys creiddiau a chrafion
- ✓ Cig a physgod, yn cynnwys esgyrn a chennau
- ✓ Bagiau te a gwaddodion coffi
- ✓ Plisg wyau
- ✓ Bwyd dros ben neu fwyd wedi mynd heibio'i ddyddiad

**Na, dim diolch**

- ✗ Deunydd pacio bwyd
- ✗ Hylifau, fel grefi neu laeth
- ✗ Olewau neu frasterau
- ✗ Baw anifeiliaid neu bobl

# Gwastraff na ellir ei ailgylchu

**(a elwir hefyd yn "sbwriel" neu wastraff "gweddilliol")**
















**Ie, os gwelwch yn dda**

- ✓ Eitemau o blastig du neu frown
- ✓ Bagiau plastig, fel bagiau siopa, bagiau bara a bagiau bwydydd o'r rhewgell
- ✓ Deunyddiau pacio plastig aml-becyn, fel y rhai sy'n dal creision a diodydd ysgafn
- ✓ Haenen blastig, fel haenen lynu, haenau oddi ar dybiau bwydydd, a deunydd lapio palet
- ✓ Pecynnau bisgedi, pecynnau losin, a bagiau neu becynnau siocled
- ✓ Pecynnau creision
- ✓ Ffoil gyda phapur ar ei gefn
- ✓ Pecynnau plastig meddal a ddefnyddir ar gyfer bwydydd babanod, sudd ffrwythau a reis microdon
- ✓ Bocsys pizza tecawê a deunyddiau lapio o'r siop sglodion
- ✓ Cwpanau tecawê untro ar gyfer coffi a diodydd ysgafn
- ✓ Hancesi papur, papur cegin a thyweli papur
- ✓ Bagiau parseli wedi'u gwneud o blastig
- ✓ Swigod lapio
- ✓ Polystyren
- ✓ Plastigion caled, fel hongwyr dillad a photiau planhigion
- ✓ Tanwyr nwy gwag
- ✓ Lludw tân (lludw oer yn unig)

**Na, dim diolch**

- ✗ Batris*
- ✗ Tuniau nwy*
- ✗ Olewau neu frasterau*
- ✗ Erosolau neu duniau a ddefnyddir ar gyfer dal paent neu nwyddau niweidiol*
- ✗ Gwastraff peryglus neu glinigol*
- ✗ Unrhyw eitemau a nodir yn y rhestrau 'Ie, os gwelwch yn dda' ar dudalennau pump i saith

* **Trefnwch i gwmni gwastraff arbenigol gael gwared â'r rhain, os gwelwch yn dda**

Am fwy o wybodaeth am yr hyn y gallwch ac na allwch ei ailgylchu, yna cysylltwch â ni, os gwelwch yn dda.

www.blaenau-gwent.gov.uk

facebook.com/blaenaugwentcbc

@BlaenauGwentCBC

01495 311 556



Wedi'i argraffu ar bapur 100% eilgylch